

# Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd Nos Fawrth, 7 Ionawr 2020 yn Neuadd Groeslon am 7 yr hwyr

Minutes of the Finance Committee Meeting held at Groeslon Village Hall, Tuesday, 7 January 2020 at 7.00pm

## **Yn bresennol / Present**

Cynghorwyr/ Councillors Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones ;David C Davies; Bryn Williams; Eddie Willcox; Hywel J Owen ; Clive Bayley a David Roberts Rheolwr/Manager.

### **1 Croeso'r Cadeirydd – Chairmans Welcome**

Croesawyd pawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod gan Gadeirydd y Pwyllgor, Cyng. David C Davies.

### **2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences**

Cyng. Gerwyn Owen.

### **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000**

Ni wnaeth unrhyw aelod oedd yn bresennol ddatgan buddiant / No members present declared an interest

### **4 Cyllideb 2019-20 – Adolygiad Trydydd Chwarter – 2019-20 Budget Third Quarter Review**

Dosbarthwyd copïau o'r canlynol i bob aelod

- Cyfrif Incwm a Gwariant am y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Rhagfyr 2019
- Cysoniad y Banc i 31 Rhagfyr 2019
- Y Gyllideb yn erbyn Gwir Wariant at 31 Rhagfyr 2019 ac Ymrwymadau at 31 Mawrth 2020
- Balansau y Cyngor ar 31 Rhagfyr 2019
- Datganiadau Banc (y ddau gyfrif) at 31 Rhagfyr 2020

'Roedd y Rheolwr eisoes wedi anfon copïau o'r uchod i bob aelod ymlaen llaw.

Gofynnwyd ambell i gwestiwn gan yr aelodau ar rhai o'r ffigyrau ac roeddynt yn fodlon gydag ymateb y Clerc.

***Cymeradwywyd y papurau ac fe'i harwyddwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor***

Balansau fel adroddwyd ond wedi ei addasu ar gyfer yr uchod felly -I

<b>Cysoniad y Banc i 31 Rhagfyr 2019 / Bank Reconciliation to 31 December 2019</b>	
Balansau'r Banc i 31 Rhagfyr 2019 / Bank Balances as at 31 December 2019	-£38,173.42
Llai Credydwyr a Sieciau heb eu cyflwyno / Less Creditors & Unpresented Cheques	£15,823.34
+ Dyledwyr / Debtors	-£2,947.32
<b>Is-gyfanswm / Sub Total -</b>	<b>-£25,297.40</b>
+ Praesept heb gyrraedd (rhan 2) / Praesept as yet not received	0
<b>Is-gyfanswm / Sub Total</b>	<b>-£25,297.40</b>
Gwariant ymrwymedig i 31 Mawrth 2020 / Committed Expenditure to 31 March 2020	20,103.41
+ Incwm heb gyrraedd i 31/3/2020/ Income due to 31 March 2020	-2,027.95
<b>Is-gyfanswm / Sub Total</b>	<b>-£7,221.94</b>
Llai Cronfeydd Penodol (£3,500 AWG a £2,000 Cronfa Adnewyddu Offer Cae Chwarae) / Less Specific Funds (£3,500 in reserve & £2,000 Playing Fields Renewal Fund)	5,500.00
<b>Cyfanswm Gor neu (Tan) wariant y rhagwelir i 31 Mawrth 2020 / Total Overspent (under) spend expected as at 31 March 2020</b>	<b>-£1,721.94</b>
<b>Cronfeydd y Cyngor ar 31 Rhagfyr 2019 / Specific Funds as at 31 December 2019</b>	
Arian Wrth Gefn - Polisi'r Cyngor / General Reserve Fund	-£3,500.00
Cronfa Adnewyddu Offer Caeau Chwarae / Playing Fields Renewal Fund	-£2,000.00
<b>Cyfanswm y Cronfeydd / Total Specific Funds</b>	<b>-£5,500.00</b>

### Nodwyd gan y Rheolwr -

'Roedd Adolygiad Ail Chwarter i 30 Medi 2019 wedi adnabod –

- **£5,813.57** o gyllid ar y pennawd Datblygiadau gyda £3,500 yn cael ei glustnodi ar gyfer lloches bws Carmel a £2,000 ar gyfer Datblygu'r Gwefan yn unol a rhestr blaenioraethau gwariant y Cyngor
- Roedd yna swm o **£1,883.67** o danwariant ar amrywiol pennawdau ond fod y Pwyllgor yn argymhell cadw'r arian wrth gefn am y tro
- Yn cyfarfod o'r Cyngor llawn mis Tachwedd penderfynwyd clustnodi £1,500 o balansau y Cyngor tuag at cytundeb biniau halen gyfa Cyngor Gwynedd.
- Yn dilyn cwynio ynglyn cyflwr mynwent Bryn'rodyn penderfynwyd clustnodi elfen o'r tanwariant uchod ar gyfer rhaglen o waith i dacluso y dair mynwent

### Sefyllfa 31 Rhagfyr 2019

- **Tanwariant o £1,721.94** ar amrywiol benawdau yn bennaf ar gwaith ar y lloches bws yng Ngharmel. *Awgrymir cadw'r tanwariant ar gyfer lleihau praesept 2020-21*
- **Tanwariant o £579.87** ar amrywiol bennawdau gan and oes ymrwymiad cadarn at y cyfnod hwn. *Awgrymir defnyddio £278.06 o'r tanwariant i wneud cyfanswm o £2,000 ar gyfer lleihau praesept 2020-21 gan gadw £301.81 yn y gyllideb heb ymrwyniad.*
- Fod targed incwm **Ffioedd Claddu** yn **£1,214** yn fyr at y cyfnod dan sylw. *Yn hanesyddol disgwylir y bydd yr incwm yn cyrraedd ei darged erbyn diwedd y chwarter nesaf.*
- Fod sefyllfa gwariant ar y biniau halen yn aneglur yn y cyfnod dan sylw. *Bydd unrhyw danwariant o'r £1,500 sydd wedi ei glustnodi yn cael ei gyfeirio yn ôl i'r Gronfa Wrth Gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.*
- Fod yna swm o **£6,000** yn y gyllideb ar gyfer **Rhoddion** yn 2019-20. Gan fod y Cyngor wedi sefydlu trefniant newydd ar gyfer dyrannu rhoddion eleni mae'r sefyllfa yn aneglur o sawl cais a ddaw gerbron eleni.
- Fod yna swm o £600 wedi ei glustnodi yn y gyllideb ar gyfer **arolwg o gerrig beddi fynwent** Bryn'rodyn. Pris yn ymgymwrwr i gyflawni'r gwaith ydi **£180** sydd yn **gadael £420** ar gyfer unrhyw waith i ddiogelu unrhyw gerrig fydd wedi ei adnabod yn beryglus.

#### **Argymhelliad i'r Cyngor-**

- Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y balansau fel y nodwyd at 31 Rhagfyr 2019*
- Fod y Cyngor yn clustnodi £2,000 o danwariant eleni i balansau ac yn ei ddefnyddio i leihau praesept 2020-21.*
- Fod y Cyngor yn nodi fod yna tanwariannau posibl eraill o £301.81 yn y gyllideb ond yn cadw yr arian wrth gefn ar hyn o bryd.*

#### **Recommendation to Council-**

- That the Council accepts the accuracy of the balances as noted as at 31 December 2019*
- That the Council earmarks £2,000 from this year's underspend to balances and uses it to reduce the 2020-21 precept.*
- That the Council notes that there are other potential underspends of £301.81 in the budget but keeps the underspend as unallocated at this time.*

## **5 Cyllideb 2020-21 – Cam Olaf / 2020-21 Budget – Final Stage**

### **Sefydlwyd cyllideb 2019-20 fel a ganlyn –**

Gwariant Gross £59,850

Llai Incwm Ffioedd a Grant (£4,850)

Llai Defnydd o Balansau (dim)

**Gwariant Net £55,000** sef y galw ar y trethdalwr- sef y "praesept"

### **Addasiadau Parhaol i'r Gyllideb Sylfaenol (£380)**

Gellir gostwng y gyllideb sylfaenol (**£380**) net ar amrywiol benawdau ond y ddau brif bennawd yw - **Pensiwn y Rheolwr (£1,340)** - cyfraniad y Cyngor tuag at bensiwn yr athrawon i NEST yw 10% o'r cyflog nid 22.4% fel rhoddwyd yn y gyllideb 2019-20

**Lwfansau Aelodau £1,200** - £900 sydd yn y gyllideb ar sail 6 aelod yn hawlio £150. Awgrymir y dylid ychwanegu £1,200 i'r gyllideb ar sail 14 aelod yn hawlio'r lwfans

**Addasiadau amrywiol eraill (£240)**

#### **Datblygiadau o 2019-20 +£1,500**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo **£1,500** o balansau eleni i ariannu prynu'r gwasanaeth biniau halen gan Gyngor Gwynedd. Rhaid cynyddu'r gyllideb yn 2020-21 £1,500 i gadw'r balansau ar swm sefydlog o £5,000.

#### **Chwyddiant 2020-21 +£600**

Rhagwelir fod chwyddiant ar gyfer 2020-21 yn £600 ar sail 1.5% CPI ar fwyafrif y penawdau, 2.75% ar gost cyflogaeth a 5% ar gytundeb Un Llais Cymru. Nid oes chwyddiant wedi ei ychwanegu ar gytundebau sefydlog megis cynnal tiroedd.

#### **Addasiadau Amrywiol 2020-21 (£920)**

Penderfyniad y Cyngor oedd cynyddu ffioedd claddu ar rhai penawdau 12% yn 2020-21 i adlewyrchu'r ffaith fod y ffioedd claddu yn cynnwys ffi gosod carreg fedd. Rhagwelir cynnydd felly yn yr incwm o (£500) Rhagwelir fod scop i leihau'r gyllideb (£390) pellach ar amrywiol benawdau

#### **Datblygiadau 2020-21 +£8,200**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wariant yn 2020-21 nad oes cyllideb ar eu cyfer yn benodol -

- adroddiad blynyddol - amcan gost **+£500**
- cytundeb biniau halen - amcan gost **+£1,500**
- cyfraniad at gynnal cae pêl-droed Y Groeslon **+£1,000**
- blaenoriaeth gwariant y Cyngor – llwybrau mynwentydd **+£1,370**
- blaenoriaeth gwariant y Cyngor – lloches bws Dinas Dinlle **+£2,500** (£5,000 dros dwy flynedd)
- agor mynwent newydd Bryn'rodyn **+£1,000**
- cytundeb cynnal gwefan newydd net cynnydd o **+£290**
- cynnydd cost gweinyddiaeth **+£1040**
- Cynnydd yn y gyllideb Rhoddion ar gyfer Eisteddfod Boduan **+£1,000** (gan ddefnyddio balansau ar gyfer y gweddill yn 2020-21 a 2021-22)
- Tanwariant 2019-20 (**£2,000**)
- **Cyfanswm £8,200**

#### **Gweinyddiaeth**

Mae'r Gweithgor Ymgysylltu wedi nodi fod yna ddisgwyll cynnydd yn weinyddiaeth y Cyngor yn 2020-21 o ganlyniad i ddarparu adroddiad blynyddol a "social media". Byddai cynyddu oriau'r Rheolwr o 50 awr y mis i 54 awr y mis yn gost ychwanegol o **£950** mewn blwyddyn, £750 am y cyflog, £100 yswiriant cenedlaethol a £75 am y pensiwn.

#### **Cyllideb 2019-20 a Balansau**

Rhagolygon diweddaraf yn dangos fod yna danwariant o £2,000. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'r tan wariannau ar rhai penawdau ar gyfer gwaith ar loches bws Gardd Y Coleg, Carmel a datblygu'r gwefan

Disgwyllir y balansau ganlynol at 31 Mawrth 2020

- Cronfa Arian Wrth Gefn £3,500
- Cronfa Caeau Chwarae £2,000
- Cyfanswm £5,500

Noder fod targed ffioedd claddu eleni yn £4,030 gyda'r incwm gwirioneddol hyd yma yn £3,016. Mae angen £1,014 yn y cyfnod Tachwedd 2019 i Fawrth 2020 i gyrraedd y targed. Mae'n bosib y gall yr incwm fod £1,000 neu £2,000 uwch y targed erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

#### **Cyllideb Derfynol 2020-21**

I gwrdd â datblygiadau/pwysau yn 2020-21, chwyddiant, a blaenoriaeth gwariant bydd rhaid i'r Cyngor ystyried y gyllideb ganlynol yn 2020-21 -

	<b>Cyllideb 2019-20</b>	<b>Cyllideb 2020-21</b>	<b>Gwahaniaeth £</b>	<b>Gwahaniaeth %</b>
Gwariant	£59,850	£71,440	£11,590	19.37%
Incwm	(£4,850)	(£5,440)	(£590)	12.16%
Defnyddio Balansau	dim	(£2,000)	(£2,000)	
<b>Net</b>	<b>£55,000</b>	<b>£64,000</b>	<b>£9,000</b>	<b>16.36%</b>

Rhaid ystyried felly cynyddu'r gyllideb yn 2020-21 **£9,000** neu **16.36% yn erbyn cyllideb 2019-20**. Byddai'r cynnydd yn golygu cost flynyddol ar eiddo Band C o £58.05 yn 2020-21 y flwyddyn Mae £1,000 o gynnydd yn y praesept yn golygu cynnydd o 86 ceiniog y flwyddyn ar eiddo Band C

### **Cais Eisteddfod Genedlaethol Boduan 2021 am gyfraniad o £5000 gan y gymuned-**

#### **Sylwadau Aelodau –**

**HJO** - mater i'r Cyngor llawn ydi penderfynu os am gyfrannu ai peidio neu os am sefydlu Pwyllgor Lleol. Yn fodlon gydag awgrym y rheolwr i gynnwys £1,000 yng nghyllideb 2020-21 ond i beidio ei hysbysebu. Gwneud y sylw os ydi'r Cyngor hwn am gyfrannu rhaid gwneud hynny yn annibynnol i unrhyw gyfraniad gan Bwyllgor Lleol neu ni fydd y cyfraniad yn ymddangos ar raglen cyfranogwyr yr Eisteddfod. Rhaid derbyn fod pobol yn y gymuned yn gefnogol iawn i'r Eisteddfod ac yn falch o gael y cyfle i gasglu arian i'w chynnal waeth bynnag ei lleoliad

**GOJ** - pryder os fydd gan Bwyllgor Lleol brwdfrydedd o ystyried and yw'r Eisteddfod yn lleol i ni yn Dyffryn Nantlle / Arfon.

**AWJ** - atgoffa pawb o'r trefniant a wnaethpwyd wrth sefydlu Pwyllgor Lleol ar gyfer Eisteddfod Yr Urdd a gynhaliwyd yn Arfon ddiwethaf. Rhaid troedio'n ofalus gyda'r cais hwn gan and yw yn lleol i'r gymuned hwn.

**Rheolwr** - yn gwneud y sylw y gellir cyfrannu swm dros gyfnod y ddwy neu dair blwyddyn ariannol. Hefyd yn awgrymu i'r Cyngor ystyried cadw ei gyfraniad fel "top up" at y targed o £5,000 net o unrhyw swm y bydd Pwyllgor/au lleol wedi llwyddo i'w gasglu.

#### **Argymhelliad unfrydol i'r Cyngor -**

- i) Fod y Cyngor yn derbyn fod y Pwyllgor Cyllid wedi archwilio cynnwys y gyllideb ac yn fodlon gyda'r ffigyrau fel y'i cyflwynwyd**
- ii) Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r datblygiadau hynny a nodir isod sydd angen eu cynnwys yng nghyllideb 2020-21 ac yn derbyn bydd y praesept yn cynyddu £9,000 neu 16.36% wrth gynnwys yr holl o'r datblygiadau sef -**
  - **adroddiad blynyddol - amcan gost +£500**
  - **cytundeb biniau halen - amcan gost +£1,500**
  - **cyfraniad at gynnal cae pêl-droed Y Groeslon +£1,000**
  - **blaenoriaeth gwariant y Cyngor – llwybrau mynwentydd +£1,370**
  - **blaenoriaeth gwariant y Cyngor - lloches bws Dinas Dinlle +£2,500 (£5,000 dros ddwy flynedd)**
  - **agor mynwent newydd Bryn'rodyn +£1,000**
  - **cytundeb cynnal gwefan newydd net cynnydd o +£290**
  - **cynnydd cost gweinyddiaeth +£1,040**
  - **Cynnydd yn y gyllideb Rhoddion ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Boduan 2021 +£1,000**
  - **Cyfanswm £10,200**

**Llai - Defnyddio Tanwariant 2019-20 (£2,000)**

- **Cyfanswm £8,200**
- iii) **Fod y Pwyllgor yn argymhell i'r Cyngor osod praesept o £64,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21**
- iv) **Fod gweithgor Gwaith y Rheolwr yn adolygu oriau gwaith y Rheolwr cyn mabwysiadu unrhyw newidiadau.**
- v) **Fod y Cyngor Llawn yn penderfynu ymateb i cais Eisteddfod Genedlaethol 2021 am swm o £5,000 a thrwy hynny ystyried galw cyfarfod cyhoeddus i sefydlu Pwyllgor/au Lleol.**

**Recommendation to Council -**

- i) **That the Council accepts that the Finance Committee has scrutinized the budget as presented and is content with the figures.**
- ii) **That the Council approves the developments as noted below that need to be included in the 2020-21 budget and accepts that the precept will increase by £9,000 or 16.3% if the Council includes all of the developments, namely**
  - **annual report – estimated cost £500**
  - **salt bin service - estimated cost £1,500**
  - **contribution towards the up-keep of Groeslon football pitch - £1,000**
  - **Councils Spending Priority – cemetery footpaths - £1,370**
  - **Councils Spending Priority – Dinas Dinlle bus shelter - £2,500 (£5,000 over two years)**
  - **opening of Bryn'rodyn new cemetery - £1,000**
  - **year 2 costs od new website - £290**
  - **increase in administration costs- £1,040**
  - **NaNational Eisteddfod 2021 +£1,000**
  - **Total £10,200**
  - **Less 2019-20 underspend (£2,000)**
  - **Total £8,200**
- iii) **That the Committee recommends that the Council sets a precept of £ 64,000 for the financial year 2020-21**
- iv) **That the Manager's Working group is to review the Manager's working hours before implementing any change.**
- v) **That the Full Council resolves to respond to the 2021 National Eisteddfod bid for a sum of £ 5,000 and thus consider calling a public meeting to establish Local Committee/s.**

## **6 Polisi Bancio a Talu Ar Lein / Banking & On Line Payments Policy**

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Rheolwr fod y mater hwn wedi ei gyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid gan y Cyngor llawn Rhagfyr 16 yn dilyn sylwadau gan Cyng. Eddie Willcox.

Pryder EW yw nad oes gan y Cyngor "secondary user" a gall hyn fod yn wendid yn nhrefniadau gweinyddol y Cyngor a bod yn risg.

Esboniodd Cadeirydd y Pwyllgor (DCD) o sut oedd y Rhhelwr yn cael mynediad i fanc HSBC – hynny yw fod angen cyfrinair i gael mynediad i'r cyfrif ar lein, fod angen rhif unigryw 6 digid o'r "fob" ac fod angen rhif unigryw trwy'r "fob" i sefydlu credydwy'r newydd.

AWJ – tynnu sylw at fan addasiadau i'r geiriad y polisi

Trafodwyd y syniad o dalu £1 i bob credydwr newydd gan ddisgwyl am gadarnhad gan y credydwr fod y £1 wedi cyrraedd y cyfrif cyn prosesu'r taliad. Barn yr aelodau oedd dileu'r cymal hwn o'r polisi gwreiddiol a gyflwynwyd gan nad oedd yn ymarferol gofyn i bob cyflenwr, yn arbennig cyflenwyr nad oedd yn lleoli a busnesau mawr i gadarnhau os oedd y £1 wedi cyrraedd y banc. Byddai'r cymal hwn wedi achosi oedi yn prosesu taliadau

**Argymhelliad y Pwyllgor –**

- i) *Fod y Cyngor yn derbyn y polisi Bancio a Talu Ar Lein***
- ii) *Fod y polisi yn weithredol o dyddiad cyfarfod Cyngor Llawn Ionawr 2020.***
- iii) *Fod y Cyngor yn monitro y sefyllfa ac yn adolygu y trefniant eto ymhen chwe mis***

**Committee's Recommendation -**

- i) *That the Council accepts the Online Banking and Payment policy***
- ii) *That the policy is effective from the date of the January 2020 Full Council meeting.***
- iii) *That the Council monitors the situation and reviews the arrangement again in six months' time***

<b>Daeth y cyfarfod i ben am 8.10 yr hwyr</b>
---

<b>Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -</b>	
<b>Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor</b>	
<b>Dyddiad -</b>	